**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

11 Rhagfyr 2025

Annwyl Peredur,

**Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) - Craffu yng Nghyfnod 1**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ymwybodol bod y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) wedi'i gyfeirio at eich Pwyllgor ar gyfer cynnal gwaith craffu Cyfnod 1.

O ystyried diddordeb ein Pwyllgor ni yn y meysydd a gwmpesir gan y Bil, os ydych chi'n fodlon, byddwn yn ddiolchgar pe gellid gwneud trefniadau i dri o'n Haelodau ni ymuno â'r sesiynau craffu yng Nghyfnod 1 ochr yn ochr â'ch Pwyllgor chi. Byddai hyn yn caniatáu i aelodau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ddod â'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u datblygu mewn cysylltiad â'r economi ymwelwyr drwy ein gwaith blaenorol ar y mater i gefnogi ystyriaeth eich Pwyllgor chi o'r Bil. Byddai hefyd yn ein helpu ni i gadw golwg ar y materion a godwyd, a fydd yn cyfrannu at ein gwaith ein hunain yn y maes hwn.

Gwnaethom ymgymryd â dull tebyg o graffu ar Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, pan ymunodd cydweithwyr o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith â'n Pwyllgor ar gyfer craffu yng Nghyfnod 1. Teimlaf fod hynny wedi gweithio'n dda ac wedi gwella ein gallu i graffu'n effeithiol ar y Ddeddf.

Os byddwch yn fodlon ar y dull hwn, gall ein timau clercio gysylltu i gadarnhau'r trefniadau.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg